# Trefnu Ymweliad . . .
# Awdur, Bardd neu Ddarlunydd

*Y peth pwysicaf yw bod pawb yn mwynhau'r digwyddiad a'i fod yn gam arall tuag at ysbrydoli pobl ifanc i afael mewn llyfr.*

Os hoffech chi drefnu ymweliad gan awdur, bardd neu ddarlunydd i'ch ysgol neu'ch llyfrgell chi ond yn ansicr am sut i fynd ati, peidiwch â phoeni. Mae'r cyfarwyddiadau isod yn egluro'n syml sut mae cynllunio ymweliad gan awdur, beth i'w wneud ar y diwrnod, a sut i helpu'ch myfyrwyr wneud y gorau o'r profiad.

## Cysylltu ag Awdur neu Gyhoeddwr

Gallwch chwilio ar-lein am awduron neu ymweld â gwefannau cyhoeddwyr. Mae staff yn ein Hadran Plant a Hyrwyddo Darllen hefyd wrth law i roi cyngor os oes angen, ac mae gennym restro o awduron sydd eisoes wedi cytuno i ni rannu eu manylion ag ysgolion. Cysylltwch â ni trwy ebostio: **plant@llyfrau.cymru**.

Wrth gysylltu ag awdur neu gyhoeddwr i drefnu ymweliad gan awdur, rhowch gymaint o'r wybodaeth ganlynol â phosibl:

- Manylion cyswllt llawn eich ysgol, gan gynnwys cyfeiriad post, enw'r cyswllt, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn.
- Enw'r awdur(on) sy'n ennyn eich diddordeb.
- Y grŵp oedran yr hoffech i'r awdur siarad â nhw.
- Nifer y plant a fydd yn bresennol.
- Nifer y sesiynau yr hoffech i'r awdur eu cynnal (fel rheol, fydd awduron ddim yn gwneud mwy na thair sesiwn mewn diwrnod ar y mwyaf – bydd angen trafod y manylion gyda'r awdur unigol).
- Y math o ddigwyddiad yr hoffech i'r awdur ei wneud. Er enghraifft, gweithdy neu sgwrs.
- Lleoliad y digwyddiad (neuadd ysgol, llyfrgell neu ystafell ddosbarth).
- Ffi yr awdur.

## Ymgeisio am Gefnogaeth Ariannol

Mae Llenyddiaeth Cymru yn cynnig cefnogaeth ariannol o hyd at 50% tuag at ffioedd ymweld yr awduron. Mae'r broses ymgeisio yn syml, yn rhwydd ac yn gyflym. [Ymgeisiwch Nawr - Llenyddiaeth Cymru]

Byddwch yn ymwybodol fod rhai awduron yn cael eu bwcio fisoedd ymlaen llaw. Fe'ch cynghorir i roi cymaint o rybudd â phosib.

## Paratoi ar Gyfer y Digwyddiad

I gael y budd mwyaf o ymweliad yr awdur, mae'n help mawr i baratoi'r plant ymlaen llaw. Mae awduron bob amser yn ddiolchgar iawn pan fydd eu gwaith wedi'i drafod cyn ymweliad, ac yn ein profiad ni mae'n galluogi'r plant i ymgysylltu'n llawnach â'r digwyddiad. Lle bo modd, rydym yn argymell eu bod yn darllen peth o'r llyfr, yn ymchwilio i'r awdur neu'n creu arddangosfa yn yr ystafell ddosbarth/llyfrgell. Hefyd, mae'n ddefnyddiol iawn os yw'r plant yn gallu meddwl am rai cwestiynau yr hoffent eu gofyn i'r awdur cyn yr ymweliad.

## Croesawu'r Ymwelydd

Mae hi bob amser yn braf i'r awduron dderbyn croeso brwd wrth gyrraedd digwyddiad. Mae cynnig paned o de neu goffi, cyflwyno aelodau'r staff a dangos y lleoliad, i gyd yn helpu'r awdur i deimlo'n gyffyrddus ac yn hamddenol cyn y digwyddiad.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government



### Y Digwyddiad Ei Hun

Bydd yr awdur fel arfer yn siarad am o ddeutu 45 munud gan adael 15 munud ar y diwedd ar gyfer cwestiynau (cyfanswm o awr). Bydd hyn yn amrywio ychydig yn ôl grŵp oedran y gynulleidfa. Mae llofnodi llyfrau fel arfer yn ychwanegol i'r amser hwn felly, dylech ofyn i'r awdur a yw hyn yn cyfrif fel rhan o awr y digwyddiad. Cofiwch, efallai y bydd angen offer ychwanegol ar yr awdur ar gyfer y sgwrs neu'r gweithdy. Er enghraifft, bydd angen offer ar awdur sy'n defnyddio cyflwyniad Powerpoint, ac efallai y bydd eraill eisiau siart troi neu fwrdd. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chadarnhau cyn y digwyddiad er mwyn cwrdd â'r holl ofynion. Dylid darparu gwydraid o ddŵr.

**D.S.** dylai athrawon/llyfrgellwyr fod yn bresennol drwy gydol y digwyddiadau hyn ac ni ddylid gadael yr awdur ar ei ben ei hun gyda'r plant. Os bydd y staff yn mwynhau eu hunain gymaint â'r plant, yna bydd pawb yn cael mwy allan o'r digwyddiad.

### Gwerthu Llyfrau

Er bod awduron a chyhoeddwyr yn llawn werthfawrogi na fydd pob plentyn sy'n mynychu'r digwyddiadau hyn yn dymuno neu'n gallu prynu llyfrau, gofynnwn eich bod yn cynnig yr opsiwn iddynt i brynu. Cysylltwch â'ch siop lyfrau leol a threfnwch ei bod yn rheoli gwerthiant y llyfrau yn y digwyddiad. Gallwch fod yn dawel eich meddwl fod hyn yn arfer cyffredin ac yn ffordd wych o greu perthynas dda â llyfrwerthwyr lleol. Dylai'r siop lyfrau fedru trefnu stoc, darparu aelod staff ar gyfer y gwerthu, a thrafod yr holl arian. Rydym yn argymell eich bod yn anfon llythyrau adref at rieni a gwarcheidwaid cyn y digwyddiad yn eu hysbysu y bydd llyfrau ar gael i'w prynu. Mae'n aml yn help os yw'r llyfrau ar werth ychydig ddyddiau cyn neu ar ôl y digwyddiad gan fod plant yn aml yn anghofio dod â'u harian ar y diwrnod ei hun, a bydd rhai'n penderfynu prynu llyfr ddim ond ar ôl clywed yr awdur yn siarad.

### Llofnodi Llyfrau

Mae awduron bob amser yn hapus iawn i lofnodi llyfrau mewn digwyddiadau. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd ar ddiwedd y sesiwn. Gofynnwn i aelod o staff yr ysgol fod wrth law i drefnu bod y plant yn ffurfio ciw trefnus os ydynt am gael eu llyfrau wedi'u llofnodi, a dylent agor eu llyfrau ar yr wynebddalen yn barod i'r awdur. Mae hefyd yn help i lynu nodiadau gludiog ar y llyfrau gydag enw'r plentyn wedi'i ysgrifennu'n glir i atal unrhyw gamgymeriadau sillafu wrth lofnodi. Yn anffodus, ni ellir dychwelyd llyfrau wedi'u llofnodi i'r siop lyfrau na'r cyhoeddwr. Mae croeso mawr i'r plant ddod ag unrhyw un o lyfrau'r awdur sydd yn eu meddiant gartref, os ydynt am i'r rhain gael eu llofnodi hefyd. Yn ystod y llofnodi, mae'r awdur yn debygol iawn o werthfawrogi paned poeth!